COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

ADRODDIAD / TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

DIBEN: PENDERFYNIAD COMISIYNYDD / GWYBODAETH / BRIFFIAD – CYF. DLI 043

Amseru: Brys

Teitl: Cyflwyno Braenaru Menywod Dalfa Hwlffordd

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: e.e. Deddfwriaeth Sylfaenol, Gofyniad Statudol, Cyllid, Perfformiad, Cwynion ayyb (diwygiwch fel y bo'n briodol)
Comisiynu

Crynodeb Gweithredol:
Mae'r Wobr Tendr Sengl isod yn rhoi manylion cefndir ynghylch Cynllun Braenaru y Merched. I grynhoi, yn gynnar yn 2015, diogelwyd swm sylweddol o arian gan dîm Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru o Gronfa Arloesi'r Heddlu'r Swyddfa Gartref i dreialu braenaru merched ar draws Cymru. Daeth cyllid y Swyddfa Gartref i ben ar 31 Mawrth 2017, a sicrhawyd cytundeb drwy Fwrdd Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru y byddai pob un o'r Comisiynwyr yn etifeddu eu trefniadau lleol eu hunain o 1 Ebrill 2017 ymlaen, er mwyn galluogi'r cynlluniau peilot i barhau.
Ar gyfer Dyfed Powys, mae hyn yn golygu parhad o'r contract gyda Gwalia ar gost o £ 20,000 y flwyddyn am y cyfnod o 1af Ebrill 2017 hyd at 31 Mawrth 2018. Mae'r swm hwn yn cynrychioli gwerth gorau am arian ac ansawdd gwasanaeth fel y'i mesurir gan y panel gwerthuso ar ddechrau'r contract.

Argymhelliad:
Bod contract hyd at werth o £ 20,000 heb gynnwys TAW yn cael ei ddyfarnu i Gwalia am gyfnod o flwyddyn o 1 Ebrill 2017 tan 31 Mawrth 2018.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf fuddiannau personol neu ragfarnus yn y mater hwn a chymeraf y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan o ran Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Y mae'r / Nid ydyw'r cais uchod yn derbyn fy nghymeradwyaeth / nodaf y wybodaeth a geir yn yr adroddiad (dilëwch fel sy'n briodol)

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 19/7/2017

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

ADRODDIAD / TENDR SENGL

Cfernod y Tendr: DPPQ/17/03

Disgrifiad Cyflwyno Cynllun Braenaru Menywod Dalfa Hwlffordd

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â chais am eithriad rhag gweithdrefnau tendro (ar gyfer pryniadau o £50,000 neu fwy), neu i gael eithriad rhag gweithdrefnau dyfynbris (ar gyfer pryniadau rhwng £5,000 a £49,999). Nodir y bydd yn dal yn ofynnol i cael contract dilys (ar gyfer pryniadau o £50,000 neu fwy) neu archeb bwrcas (ar gyfer pryniadau rhwng £5000 a £49,999).

Mae'r Gorchmynion Sefydlog Ynglŷn â Chontractau (sy'n ffurfio rhan o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol) yn rhan hanfodol o'r gweithdrefnau ar gyfer sicrhau bod contractau yn cael eu gosod mewn ffordd sy'n:

i) cael y gwerth gorau am arian
ii) cynnal y safonau uchaf o briodoleb
iii) cydymffurfio â gofynion cyfreithiol
iv) cydymffurfio â pholisïau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Yn y mwyafrif o achosion, ni ddylid prynu nwyddau, gwasanaethau na gwaith cyn i'r tendrau cystadleuol / dyfynbrisiau gael eu ceisio, yn dilyn cyngor yr Adran Gaffael. Mewn rhai amgylchiadau, efallai na fydd hyn yn bosibl. Mae'r adroddiad hwn yn darparu manylion ynglŷn ag amgylchiadau o'r fath er mwyn ceisio cymeradwyaeth Prif Swyddog Cyllid Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i gytuno ar eithriad rhag Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â Chontractau.

Y Gofyniad

Mae Tîm Rheoli Troseddwyr Integredig Cymru (IOM) yn dîm canolog sy'n cynnwys swyddi secondio a swyddi a ariennir gan grantiau, sy'n gweithio ar draws y pedwar Heddlu yng Nghymru i ddarparu prosiectau i leihau aildroseddu. Un o'r ffrydiau gwaith blaenoriaeth diweddar ar gyfer Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru yw troseddwyr sy'n fenywod. Yn dilyn cyhoeddi adroddiad Carsten yn 2007, cafwyd gwaith datblygu sylweddol a buddsoddiad mewnol ar gyfer darparu llwybrau amgen i'r dedfrydau carcharol ar gyfer troseddwyr sy'n fenywod. Un o'r llinynnau hyn yw'r cynllun gwrthdyniadol braenaru menywod, sy'n gweithio i ddargyfeirio troseddwyr benywaidd lefel isel trwy ddarparu'r gwasanaethau cymorth angenrheidiol i'w galluogi i roi'r gorau i droseddu a gwella ansawdd eu bywydau.

Yn gynnar yn 2015, diogelwyd swm sylweddol o arian gan dîm Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru o Gronfa Arloesi Heddlu'r Swyddfa Gartref i dreialu'r braenaru merched ledled Cymru

Ym mis Gorffennaf 2015, gweithredwyd proses dendro ar draws Cymru gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent ar ran y 4 Comisiynydd. Cymerodd staff comisiynu o bob un o'r 4 maes ran yn y gwerthusiad a'r sgorio, a nodwyd darparwr ar gyfer pob ardal Heddlu. Cytunodd Comisiynydd Gwent i weithredu fel bancwr ar ran yr holl Gomisiynwyr ac felly derbyniodd gyllid grant y Swyddfa Gartref a daliodd y contractau gyda phob darparwr.

Daeth cyllid y Swyddfa Gartref i ben ar 31 Mawrth 2017, a sicrhawyd chytundeb drwy'r Bwrd Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru y byddai pob un o'r Comisiynwyr yn etifeddu eu trefniadau lleol eu hunain o 1 Ebrill 2017 er mwyn galluogi'r cynlluniau peilot i barhau.

Ar gyfer Dyfed Powys, mae hyn yn golygu parhad o'r contract gyda Gwalia ar gost o £20,000 y flwyddyn am y cyfnod 1af Ebrill 2017 hyd at 31 Mawrth 2018.

Cyfiawnhad dros Eithrio o'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â Chontractau

Rhowch farc yn y blwch priodol:

		Nid oes cystadleuaeth effeithiol ar gyfer y cyflenwi gan fod prisiau'n sefydlog o dan Awdurdod Statudol (Rheol Sefydlog Contract 8.6.13)
		Nid oes ond un ffynhonnell gyflenwi (Rheol Sefydlog Contract 8.6.13 b)
	√	Mae achos cyfiawnhau defnyddio cyflenwr penodol oherwydd cydnawsedd â chyfarpar presennol neu i gynnal parhad cyflenwad. Os gwneir achos o'r fath, mae'n hanfodol darparu tystiolaeth o gostau a ffactorau cysylltiedig i gefnogi'r honiad (Rheol Sefydlog Contract 8.6.13 c)
		Mae ystyriaethau diogelwch yn gwneud defnydd o gontractwr penodol hanfodol (Rheol Sefydlog Contract 8.6.13 d)
		Mae angen gweithredol anrhagweladwy gwirioneddol yn codi fel bod angen cael y cyflenwad ar frys a gallai golled, difrod neu anaf ddeillio o oedi oherwydd y weithdrefn hysbysebu (Rheol Sefydlog Contract 8.6.13 e)
		Prynu cwrw neu nwyddau yn digwydd trwy arwerthiant (Rheol Sefydlog Contract 8.6.13 f)
		Mae'n ofynnol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu affael gwasanaethau neu nwyddau penodol drwy weithredu'r gyfraith (Rheol Sefydlog Contract 8.6.13

Fel yr amlinellir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu, mae lleihau troseddu, ei atal ac ymyrryd yn gynna

a chefnogi unigolion sy'n agored i niwed yn flaenoriaethau allweddol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Yn unol â hyn, bydd y Comisiynydd yn ystyried cyfleoedd ar gyfer prosiect dalfa dargyfeiriol mwy,sy'n debygol o gael ei dendro ar gyfer ei ddarparu erbyn 1 Ebrill 2018. Er mwyn sicrhau parhad darpariaeth gwasanaeth yn y cyfamser, argymhellir bod y trefniant presennol gyda Gwalia yn cael ei ymestyn am gyfnod o flwyddyn.

Gwerth y contract a Gwerth am Arian

Dyfarnwyd swm o £20,000 y flwyddyn i Gwalia gan yr ymarfer tendro cyntaf, a darparwyd hyn gan gyl gwreiddiol y Swyddfa Gartref.

Y swm hwn oedd y gwerth am arian ac ansawdd gwasanaeth gorau fel y'i mesurid gan y panel gwerthuso ar ddechrau'r contract.

Dyraniad y Gyllideb

Gan fod cyllid y Swyddfa Gartref wedi dod i ben erbyn hyn, bydd parhad y contract yn cael ei ariannu gan gyllideb gomisiynu graidd y Comisynydd ar gyfer 2017/18.

Manylion Cyflenwr Arfaethedig

Dyfarnwyd y sgôr uchaf o ran gwerth am arian a chynnig ansawdd gwasanaeth i Gwaliayn yr ymarfer tendro Cymru gyfan gan y panel gwerthuso. Yn dilyn hyn, dyfarnwyd y contract ym mis Medi 2015.

Argymhellaid

Bod contract yn cael ei ddyfarnu i Gwalia i werth £20,000 heb gynnwys TAW am y flwyddyn o 1 Ebrill 201' tan 31 Mawrth 2018.

Deiliad Cyllideb / Swyddog Awdurdodi: Alison Perry

Llofnod:

Dyddiad 31.5.17

Cytundeb a Chymeradwyo

Cytunaf â'r rheswm dros yr eithriad ar gyfer prynu'r nwyddau, gwaith neu wasanaethau hyn.

Rheolwr yr Adran Gaffael a Chontractau: Faye Ryan

Llofnod:

Dyddiad: 31/05/2017

Cytunaf / ni chytunaf â'r rheswm hwn dros eithrio ar gyfer pwrcasu'r nwyddau, gwaith, neu'r gwasanaeth hyn.

Prif Swyddog Cyllid: Jayne Woods

J Woods.
31/5/17.

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER